The path in this area has disappeared, and is no longer a right of way – unlike the section at Nevern - but amazingly a small section of this path does seem to have survived. An ancient sunken lane comes diagonally down the hill from Berthlwyd into Cwmgyfeile, and then climbs out of the other side of the valley, worn down through the rock, towards Tregroes. This path also marked on the Ordinance Survey maps continues out of Cwmgyfeile, then on through Login and to Tregroes. Here firstly is a picture of the ancient path coming down into Cwmgyfeile. And then the path, cut into the rock, rises out of the valley in the direction of Tregroes.

It is also very interesting to discover that there was an earlier name for Cwm at about 1700 which was Cwmcabheilen. Here the word 'cab' could mean 'small inn' or 'caban', and 'heilen' could come from the old Welsh word meaning 'the serving of food and drink'. Perhaps we could imagine that as weary pilgrims travelled over the higher ground often across abbey lands, they then were able to come down into Cwm's wonderfully sheltered valley, with a good water supply and respite from any wild winds or weather of the journey. Here they could get refreshments, before they carried on their pilgrimage.



This ancient pilgrim path some 700 years old is one of the most sacred routes in Wales, and it is quite remarkable that antiquarian research has shown that it passes right through our village of Tregroes, on the way to St David's.

**cariad glass**

**Leaded lights, commissions, repairs  
& stained glass gifts.**

**Tuition available.**

**info@cariadglass.co.uk 0774 893 6032**

**Wind Street/New Road, Llandysul**

## Treasure Hunt Report / Adroddiad Helfa Drysor - Viv Moss



Of the many events held at Tregroes, Friday 20th June proved the most exacting for a few of us. As 'incomers' to Tregroes from the 'big smoke' the Treasure Hunt was a whole new experience.

I and my co-navigator, Bob Hunt, set off on the course at 6.35 with great anticipation (this was clearly to be taken seriously!). I was sure there wouldn't be any problems, I still have my 'Map Readers' badge from

Girl Guides and the thought of relying on a sat-nat to get me anywhere fills me with anxiety, the gadget might know exactly where I am but it doesn't console me, I have to know where I am even if I'm lost, but I'll come to that later.

So back to 6.35, the first clue was to be found in the school grounds, we knew the answer but couldn't find the proof so leaving the school drove out onto the lane where we thought we'd found the proof for the first clue, we hadn't. Now it was downhill from here on, although not literally as we had to turn left up hill to Maesymeillion. I have explain for those of you who have never participated in such exploits, along with the clues are the directions for reaching the destination, fortunately for us; the pub. We absolutely knew where to find the Gwarcefel, this inside information proved invaluable, without it we may still be chasing all the clues AND finding all the wrong answers somewhere in the Cambrian Mountains.

Back to, 'how to find your way', it's just a series of arrows on the sheet you're handed at the start, which, as long as you haven't made any errors would guarantee your arrival at the finishing point. But remember, we were in the wrong place when we thought we'd found the first clue, disaster loomed and only got worse as we explored Blaencribor, Alltmaen, Crugyreyr, Talgarreg, Bwlchfyadre; I could go on listing everywhere we visited in Ceredigion, for Maesymeillion, which is where we should have been. I think that you should know that my co-navigator was not my husband, we laughed all the way, you can be certain there wouldn't have been any laughing had I had my dear spouse beside me, although with retrospect it may have helped, we might have been rescued sooner by someone hearing the shouting and taking pity on us. As it was our knight in shining armour was non other than Wyn Thomas, who in the pauses between uncontrollable bouts of laughter put us on the right route, unable to believe we'd gone so far astray.

We made it to the Gwarcefel, two and a quarter hours after leaving Tregroes. Lesson; if there is to be a next time I shall walk, it will be quicker. We handed in our sheet having answered twenty of the fifty-four clues, feeling pleased with our effort having managed to solve as much as we had, sadly though, only three were the right answers, nevertheless, we congratulated ourselves on such vividly imaginative answers, to clues we couldn't find, when lost in the middle of nowhere. A huge thanks must go to Diane for organising such an enjoyable but totally mis-spent evening!

*Ar nos Wener, Mehefin 20fed cynhalwyd helfa drysor gyntaf gan bwyllgor Neuadd Tregroes, ac i rai ohonom roedd yn brofiad o'r newydd. Tua hanner awr wedi chwech dyma rai o'r moduron yn dechrau ar ei taith.*

*Yna ar ôl teithio i fyny i bentref Maesymeillion sylweddolom fod Bob y Viv wedi troi i'r chwith yn lle mynd yn ei blaen am Pontsian a dyma'r hwyl a'r sbri yn dechrau. Yn awr cewch ddarllen ei stori nhw am y profiad bythgofiadwy. Diolch yn fawr i Diana am drefnu'r noson.*



# Tregroes Olympics

There is a little known event in a small hidden corner of Ceredigion that harks back to the heritage of those Greek examples of physical excellence. I am, of course, talking about the 'Tregroes Olympics'.

"What?" I hear you cry; "In Tregroes?" Yes indeed! During July you can partake in a historical smorgasbord of Grecian Olympic events such as Egg & Spoon races, Sack Races and Welly-Wanging!

Ok... So maybe I might have overdone it with the hyperbole. It may not be that those ancient Olympians ever wanged-a-welly anywhere; but I am sure that if they had as much rain fall in Athens as we do here in mid Wales it seems reasonable that they would have appreciated a welly or two. And it is pretty clear that they indulged in exercising their digestive systems between other more common sporting events. This too, is something in common with Tregroes. We may not have roast guinea foal or buffalo; but we do have pig.... Ok... Hotdogs... But surely that is the 21<sup>st</sup> Century equivalent!

So, next July, pop over and have a hotdog or a go at welly-wanging. Failing that, the beauty of the Tregroes Olympics is that you do not have to wait 4 long years before getting another chance; you can practice with those wellies for next years event!

*Pentref bach iawn yw Tregroes ond mae yna gemau Olympaidd yn digwydd bob blwyddyn gyda llawer iawn o gystadlu brwd yn y gwahanol gystadlaethau ac yn fwyaf arbennig fe allwch ennill medalau go arbennig sef waffles Tregroes sy'n arbennig ac yn unigryw i'r digwyddiad pwysig. Os nad ydych wedi trio eich lwc yn taflu esgid law neu redeg y ras wy a llwy mae yna groeso cynnes i chi ymuno a ni'r flwyddyn nesaf.*

**TREGROES**

Waffles

TOFFEE, MILK & DARK CHOCOLATE  
WAFFLES  
WITH SOFT BUTTER TOFFEE CENTRE  
Made with finest Belgian Chocolate

**Tregroes Waffle Bakery, Pencader  
Road, Llandysul SA44 4AE  
01559 363 468**

**www.tregroeswaffles.co.uk  
email: sales@tregroeswaffles.co.uk**



# Taith Ffermwyr Ifanc Cymru i'r Wladfa



Yn ystod pythefnos olaf mis Hydref 2014 teithiodd deuddeg o aelodau clybiau ffermwyr ifanc Cymru, i'r Ariannin i ymweld â'r Wladfa Roedd rhai ohonom yn adnabod ein gilydd cyn mynd, ag eraill yn cwrdd â'i gilydd am y tro cyntaf y bore hwnnw yn yr orsafa bws cyn dechrau'r daith. Ond, ar ôl treulio bron i ddeugain awr yn teithio ar fysiau ac awyrennau lu, daethom i adnabod ein gilydd yn dda mewn byr o dro, ac rwy'n siŵr y bydd y

daith yn ein clymu'n ffrindiau da weddill ein hoes.

Er mai am bythefnos yn unig y buom ni yn y Wladfa, llwyddasom i gywasgu cymaint o ddigwyddiadau a phrofiadau arbennig i mewn i'r bythefnos honno. Rhai o'r uchafbwyntiau i ni oedd cwrdd â chymdeithas Gymraeg Porth Madryn, gwyllo'r morfilod ar y bae, mynychu Seremoni'r Orsedd yn y Gaiman, ymweld ag Ysgol yr Hendre, cystadlu yn yr Eisteddfod ac ymuno yng Nghymanfa Ganu'r Eisteddfod. Cawsom ein cyfareddu gan fwrllwm y Gymraeg a ninnau mor bell o'n cartrefi yng Nghymru. Buom yn cystadlu fel grŵp yn yr Eisteddfod a chael tipyn o lwyddiant mewn partiön canu a llefaru.

Roedd croesi'r Paith i gyfeiriad mynyddoedd yr Andes yn brofiad ynddo'i hun, â gweld olion yr hen ffordd a gymerodd y Cymry cyntaf wrth groesi'r Paith ger yr arwydd Rocky Trip. Wedi i ni gyrraedd Cwm Hyfryd, roedd y tywydd dipyn oerach a gwyrrddni'r tirlun yn debycach i Gymru. Cawsom ymweld â fferm Alejandro Jones a'i helpu i symud y gwartheg ar gefn ei geffylau. Roedd hi'n ddiddorol i gymharu traddodiadau ac arferion ffermio yng Nghymru a Phatagonia, ac roedd y rhan fwyaf o'r ffermwyr yn yr ardal hon yn cadw gwartheg biff. Uchafbwyntiau'r wythnos hon oedd cael Asado ar fferm teulu'r Green, a thrio'r ddiod mate am y tro cyntaf erioed.

Ar ddiwrnod olaf y daith, aethom i weld marchnad da byw mwya'r byd, sef Liniers yn Buenos Aires. Roedd hi'n ddiddorol i wylio'r holl arwerthiannau a gâi eu cynnal ar y safle, ac Aberdeen Angus a gwartheg Henffordd oedd y bridiau mwyaf poblogaidd. Bu'r bythefnos yn bythefnos llawn o chwerthin a mwynhad, ac ni allwn ond llai na rhyfeddu at y croeso twymgalon a Chymreiga gawsom ymhob man.

*During the last two weeks in October 2014, twelve members of the Young Farmers clubs of Wales have travelled to Patagonia in Argentina. Some of us knew each other before, whilst others met for the first time at the bus station at the beginning of the tour. After spending almost forty hours of travel on buses and airplanes, we came to know each other well in a short time. I'm sure the tour will make us good friends for the rest of our lives. Although we were only in the colony for two weeks, we were able to squeeze in many special events and experiences in that time. Some of the highlights for us were: meeting Welsh society Puerto Madryn, whale watching in the bay, attending the Gorsedd ceremony in the Gaiman, visiting Ysgol yr Hendre, competing in*

the Eisteddfod and joining in a Singing Assembly. We were fascinated by the bustle of Welsh in a country so far from Wales. We competed as a group at the Eisteddfod and had some success at parties, singing and reciting. Crossing the `prairie to the Andes Mountains is an experience in itself; to see the remains of the old road taken by the first Welshmen when crossing the Rocky Trip. Having reached Cwm Hyfryd, the weather was cooler and the greener landscape being more like Wales. We visited farmer Alejandro Jones and helped move the cattle on horseback. It was interesting to compare the traditions and practices of farming in Wales and Patagonia; the majority of farmers in this area kept beef. The highlight of this week was to visit the Green family farm and trying to drink `mate` for the first time ever. On the last day of the trip, we went to see the world's largest livestock market, Liniers in Buenos Aires. It was interesting to watch all the auctions that took place; Aberdeen Angus and Hereford breeds being the most popular. The fortnight was full of laughter and enjoyment, and we were very impressed with the warm Welsh welcome we received everywhere.



## **Gorrig Cottage**

### **Self Catering Holiday Cottage**

Contact Mair & Alan at:

Gorrig Farmhouse Gorrig Rd  
Llandysul, Ceredigion SA44 4JP

T: 01559 363165

E: gorrigfarmhouse@yahoo.co.uk

W: <http://gorrigholidaycottage.co.uk>



opening times  
 lunch 12.00-1.30pm  
 afternoon tea 2.30-4.30pm  
 morning coffee 9.00-5.30pm  
 afternoon coffee 9.00-7.00pm  
 breakfast 9.00-2.00pm  
 afternoon coffee 8.00-2.00pm

## *Tij Gwallt*

Established . Sefydwyd

1999

**16 Stryd y Gwynt . Llandysul**  
**01559 363111**

# Rali'r Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion



Ar Ddydd Sadwrn oer a gwyntog y 6ed o Fehefin cynhaliwyd Rali'r Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion yn Llanddewi Brefi. Ar ôl wythnosau o ymarfer aeth aelodau clwb Pontsian yno i gystadlu mewn nifer helaeth o gystadlaethau megis gosod blodau, coginio, trin gwllân, ocsiwn ffug, crefft, dyma dy fywyd, dylunio a chreu baner, 'cabaret' ac arddangosfa'r prif gylch.

Cafwyd llwyddiant da iawn gyda Llŷr Blaencwmerwydd ac Ifan Rhydsais yn ennill cwpan yn yr ocsiwn ffug. Daeth cwpanau hefyd i Dion Fron nid yn unig yn un o'r

unigolion mwyaf gweithgar y flwyddyn ond hefyd Dion oedd Ffarmwr Ifanc y Sir am y flwyddyn. Roedd Lisa Blaencwmerwydd ar lwyfan y coroni hefyd fel un o forwynion y sir am y flwyddyn.

Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo'r aelodau ac am eu cefnogi ar gyfer y rali gan sicrhau iddynt ddod yn 5ed ar ddiwedd diwrnod o gystadlu brwd. Aeth nifer i fwynhau ymhellach y noson honno yn nawns y rali i fyny yn Llanddewi Brefi. Pob lwc i'r ocsiwn ffug ac i'r 'cabaret' a fydd yn cynrychioli'r sir yn sioe Llanelwedd ym mis Gorffennaf.



*On a cold and windy Saturday on the 6<sup>th</sup> June members of the YFC attended their annual Rally at Llanddewi Brefi, after months of practising for many different competitions including flower arranging, cooking, crafts, handling wool, false auction, creating a*

*banner, cabaret and many more.*

*They did very well with Llŷr Blaencwmerwydd and Ifan Rhydsais winning the cup for the false auction, and Dion Fron being presented with the most active member as well as the young farmer of the year. Lisa Blaencwmerwydd was an attendant and Pontsian members would like to thank everyone for their support as they came 5<sup>th</sup> on the day. The special day ended with a special dance.*



## Penrhiwllan Stores

*Siop Popeth*

Reopened 17th June 2015

Open 7am-7 pm 7days a week

*Groceries, fresh & frozen food, off licence, tobacco, fresh baked goods, newspapers etc.*

## **Cylch Meithrin Clettwr Pontsian Nursery Children**

Mae plant Cylch Meithrin Clettwr Pontsian wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn gwneud gweithgareddau amrywiol ar thema'r Gaeaf, Gwanwyn ac yr ardd. Maent wedi bod yn dathlu dathliadau amrywiol megis Dydd Santes Dwynwen, Diwrnod Pancws, Blwyddyn Newydd Tsienaid, Dydd Gŵyl Dewi a'r Pasg. Ar ôl gwyliau'r Pasg maent wedi bod yn gwneud thema yn yr ardd lle maent wedi bod yn plannu blodau haul ac yn arsylwi arnynt yn tyfu. Rydyn wedi bod yn brysur yn gwneud gweithgareddau ar drychfilod ac wedi creu canolfan arddio yn y cornel chwarae rôl.

Mae'r Cylch Meithrin yn cael ei gynnal yn Neuadd Goffa D. H. Evans ar ddydd Llun i ddydd Iau o 9y.b. hyd 11.30y.b. yn ystod tymor ysgol. Ar ddydd Gwener mae yno 'Cylch Ti a Fi' o 9y.b. hyd 11y.b. Croeso Cynnes i bawb!

*We have recently been very busy doing various activities on the theme of 'winter, spring and the garden'. The children have been celebrating Santes Dwynwen Day, Pancake Day, Chinese New Year, St David's Day and Easter. After the Easter holidays they continued on the same theme of the garden as they planted sunflowers and observed their growth. We have been busy making an insect activity centre and created a garden in the corner of the playground.*

*The Playgroup meets in D.H. Evans Memorial Hall every Monday to Thursday from 9am to 11:30 during school term. On Friday Cylch Ti a Fi meets from 9 am 'til 11am*

### **The Long Barn**

*With outstanding views of the Teifi Valley and beyond, the fully converted 18th Century stone barn provides a variety of bunkhouse accommodation, year round, for up to 34 people with full facilities including kitchen, games area, shower block and laundry room.*

*The Longbarn is an ideal location for Schools and Youth Group Holidays, Outdoor Pursuits, Christian Retreats and Educational Field Work.*

Contact: Eva or Tom Cowcher  
01559 363200 [www.thelongbarn.co.uk](http://www.thelongbarn.co.uk)  
[cowcher@thelongbarn.co.uk](mailto:cowcher@thelongbarn.co.uk)



### **Only Pets and Horses**

**Horeb**

**Open 9am-5.30 pm weekdays . 9am-1pm Saturday**

***Selling Animal feeds, a large range of Straights, Hay, Haylage, Straw, Shavings, Pet supplies, Tack, Supplements & Stable sundries. We stock feed and products for horses, cattle, sheep, goats, poultry, dogs, cats, rabbits, birds, wildbirds, hamsters, chinchillas, ferrets, guinea pigs, etc etc....***

***Tel 01559 362090***

## **Cyngor Cymuned Llandysul Community Council- Keith Evans**

Rwyf wedi cael fy anrhydeddu gyda'm cyd-aelodau ar Gyngor Cymuned Llandysul i'w arwain fel Cadeirydd am y flwyddyn bresennol. Nid yma'r tro cyntaf i fi wasanaethu yn y rôl yma, cefais yr anrhydedd llawer blwyddyn yn ôl. Rwyf wedi bod yn Aelod etholedig ar Gyngor cymuned Llandysul am bron i ddeg blynedd ar hugain. Credaf yn gryf fod y tier yma o Gyngorau yn dra phwysig, oherwydd dyma'r lefel o lywodraethant sydd agosaf i'r etholwyr ar lawr gwlad. Oherwydd toriadau yng nghyllidebau Cyngorau Sir, mae Cyngorau Bro a Thref led led Cymru yn cael eu gofyn i ddarparu ystod fwy o wasanaethau. Golygai hyn wrth gwrs fod y gost i'r dyfodol o gyflwyno'r gwasanaethau rhain yn syrthio ar drethdalwyr lleol. Yn sgîl hyn, yn sicr fydd yn rhaid i'r Cyngor Cymuned i edrych ar lefel eu presept (yr arian a godir wrth drethdalwyr i gynnal gwasanaethau) yn y blynyddoedd a ddaw. Felly edrychaf ymlaen am flwyddyn brysur o gydweithio gyda'm cyd-gyngorwyr, ein clerwr ar gymuned ehangach yn ystod y flwyddyn i symud ein cymuned yn eu blaen.

*I have been honoured to serve as Chairman of Llandysul Community Council for the coming year. This is not my first time in this role; I had that honour several years ago. I have been elected member on the Council for nearly thirty years. I strongly believe that this tier of the Council is very important, because it is at this level that is closest to constituents on the ground. Because of budget cuts all County and Town Councils across Wales are being asked to provide a greater range of services. This meant that the cost of delivering services in the future will fall on local taxpayers; because of this, the Community Council will certainly have to look at their level of precept (the money raised from taxpayers to hold services) in the coming years. I look forward to a busy year to come and working together with my fellow councillors and the clerk of our community council as we move our community forward.*

## **Ysgol Tregroes School - Keith Evans**

Mae dros 60 blynedd wedi mynd heibio ers i mi droedio'r ffordd gul o Brengwyn i Ysgol Gynradd Tregroes. Cefais gyfnod byr iawn dan law T Llew Jones, ar athrawes gyntaf oedd Mrs Jones Wesyn Villa. Yna ar ôl cyfnod byr daeth pennaeth newydd i'r Ysgol sef Ieuan Jones, gwr ifanc a sgiliau chwaraeon da, ac fe fyddai yn ymuno a ni ar yr iard amser cinio i gael gem o bêl droed. Cafodd Ieuan gryn dipyn o ddylanwad arnaf dros y cyfnod ac mae yn anrhydedd o'r mwyaf cael ei gyfiri fel ffrind o hyd ac wedi cael profi o'i haelioni drwy gydweithio gydag ef dros y blynyddoedd ar wahanol bwyllgorau yn Llandysul. Rwy'n cofio hefyd cyfnod John Alaska Davies yn yr Ysgol a ninnau fel plant yn ei gwrdd wrth gat yr ysgol er mwyn pwshio ei feic lan i'r iard. Dim llawer o athrawon yn beicio i'r ysgol y dyddiau yma!! Yn wir mae'r oes wedi newid; roeddwn ni fel plant yn cael y rhyddid i deithio wrth ein hun o'r Ysgol lan i fferm Rhiwllug i dalu am y llaeth roedd yr Ysgol wedi ei ddefnyddio. Cael croeso mawr yna a polo mint, ac mae'n hyfryd i ddweud fod y croeso llawn mor ddiffuant heddiw ac a fuodd erioed yn Rhiwllug. Yn y dyddiau hynny fyddwn fel trwp o blant yn cerdded lawr i'r ysgol a rhywbryd yn ystod y cyfnod daeth y cyfle i gael reid i'r ysgol gyda Bws Gwalia a Trefor wrth yr olwyn gan amlaf. Roedd 'na gyfnod wedyn pan oedd yn rhaid mynd nôl i gerdded am fod gwyliau yn yr ysgolion Cynradd a'r Uwchradd yn wahanol. Yna amser yr 11+ a chael hen bishyn chwech fel oedd yr arferiad bryd hynny i'w rhoi yn fy mhoced fel lwc. Wel do, fe lwyddais yn yr arholiadau, diolch i ymroddiad yr athrawon roedd wedi ein dysgu ac yna symud

ymlaen i Ysgol Ramadeg Llandysul ac i gyfnod newydd yn fy mywyd, ond gadael Tregroes gydag atgofion melys iawn.

*More than 60 years have elapsed since I set foot on the narrow Prengwyn road to Tregroes Primary School. I had a very short time at the hands of the first teachers, T Llew Jones and Mrs Jones of Wesyn Villa. After a short time Ieuan Jones became the new Head of School. He was a young man and had good sports skills; he would join us in the playground at lunchtime to have a game of football. Ieuan had a fair amount of influence on me and it has been a great honour to be counted as a friend and still working with him over the years on various committees in Llandysul. I remember the period when John Alaska Davies was in the School and we children met at the school gate to push his bike up to the yard. Not many teachers cycle to school these days!! Yes times have changed, we had the freedom to travel on our own from school to Rhiwllug Farm to fetch the milk for the School. We were well received there and would be given a polo mint. It is wonderful to say that the welcome is just the same today as it always was at Rhiwllug. Very often we would walk down down together to school and sometimes the opportunity came to ride on the school bus, with Trevor driving the Gwalia bus. Then there was a period when we had to walk because the Grammar school holidays were not at the same time as the primary school holidays. During the 11+ exam we would have a sixpenny piece to place in our pockets for luck and I'm glad to say that I succeeded, thanks to the dedication of the teachers who had taught us; as a result I moved on to Llandysul Grammar School which was the next step in my life. I left Tregroes with very fond memories.*

### **Carmel Chapel Keith Evans**

Wel mae'r gwaith yn Festri Carmel yn agosáu at ei therfyn a diolch i'r unigolion sydd wedi gwirfoddoli i roi llawer o'i amser gwerthfawr i symud y gwaith ymlaen. Yn eu hanfod, wedi adnewyddu'r drysau ar ffenestri ydym ac uwchraddio'r gwaith trydanol. Fel rydym yn mynd yn henach roedd y teimlad yn gryf iawn yn yr Eglwys fod dringo i'r llawr uchaf dros risiau cul iawn yn rhoi ffwddan i nifer o'n haelodau. Felly dyma ddod a'r llofft i lawr i'r llawr fel petai a thrawsnewid y gofod ar gyfer y cyfnod newydd yma yn hanes yr Eglwys. Fydd yna ofod gwresog neis gennym i ddefnyddio am y blynyddoedd a ddaw gyda gwell mynediad i'r adnodd yn dilyn y gwaith. Yn nyfnder y gaeaf, pwy a wŷr, efallai y cawn ambell i oedfa yna. Mae'n siŵr fydd y Swyddogion ar aelodau yn barod iawn i'r festri ar eu newydd wedd i fod ar gael i fudiadau a chymdeithasau yn ein plwyf os fydd angen yn codi. Diolch hefyd am y nawdd ariannol a dderbyniwyd i gynorthwyo ni yn y gwaith.

*Well, the work being done at Carmel is now approaching its limit, thanks to the individuals who have put in a lot of their valuable time to help. We have renewed the doors and windows and upgraded the electrical work. We felt very strongly, as we become older, that the climb up very narrow stairs in the Church to the upper floor was difficult for many of the members. The hall has begun a new stage in the history of the Church. We will have better access and a nice warm space to use for years to come. In the depth of winter, who knows, perhaps the occasional service will be in the new hall... No doubt the officials of the vestry members are happy to have the new hall available for organisations and associations in our parish if a need arises. Thanks also for the funding received in order for us to carry out the work.*

## A Move to Make Llandysul a Dementia Friendly Community



A new initiative hopes to help make Llandysul a dementia friendly community, offering support and understanding to those with dementia and their carers.

A group met at the Old Mill, Gorrig Road, and received training from the Alzheimer's Society to become a "Dementia Friend". There was a lot to learn, from the practical things you can do to help; for example, simply by changing the colour of a toilet seat or moving a mirror can make a real difference, when a sufferer's visual perception is affected. A understanding of the emotional response of someone with dementia and how to react can have amazing benefits. The challenge now is to find ways to spread out this awareness throughout the Community.

If you would like to become a Dementia Friend or have any thoughts about how to make Llandysul more dementia friendly contact either Sara on 01559 363273 or Kate 01570 421927

### BRASLUN O YRFA DELYTH EVANS (gynt o Maesymeillion)

Beth oedd fy uchelgais pan yn 15eg oed yn y 60au? Yn syml, yr unig beth oedden eisie bod oedd Swyddog Heddlu. Rwy ddim yn siwr pam, efallai achos roeddwn yn hoffi'r uniform neu siwr o fod achos byddem yn gallu dweud wrth bawb beth i wneud! Felly, pam wnes i ddim ymuno? Dywedodd fy mamgu (Marged Anne, Mernydd) wrthof "Paid a bod mor ffol, cei di ddim 'beat' o Coedmor i Gyfeile" Roedd hi'n gwybod yn iawn mai merch y filltir sgwar oeddwn a fyddem byth yn hapus ymhell o ardal Maesymeillion. Ond roedd rheswm arall, dim ond 5'2" wyf a phryd hynny roedd yn rhaid i ferched fod yn 5'4" cyn ymuno felly nid oedd pwynt breuddwydio am yrfa gyda'r heddlu.

Wedi cymryd lefel 'O' yn Ysgol Ramadeg Llandysul roeddwn yn bwriadu mynd i'r coleg i ddilyn cwrs dysgu ymarfer corff, ond gwnes ddeall yn y chweched dosbarth nad oeddwn yn hoffi gwaith academaidd. Roeddwn wrth fy modd yn gwneud y gwaith ymarferol ac yn eithaf llwyddiannus ar y maes chwarae. Enillais sawl clod yn athletau ac roedd record y Sir yn naid hir merched canol gennyf am rai blynyddoedd. Roeddwn hefyd yn hoff iawn o chwarae hoci i glybiau Athletau Caerfyrddin, Llanybydder ac yn un o'r aelodau gwnaeth sefydlu Clwb Hoci Llandysul nol tua 1980.

Pan roeddwn yn 17eg oed penderfynais adael yr ysgol a phryd hynny nid oedd llawer o ddewis gyrfa gyda merch. Roeddent yn mynd i weithio fel athrawon, nyrser neu'r banc a dyna lle es i weithio, yn Lloyds, Castell Newydd Emlyn.

Nid oedd bys yn mynd heibio Maesymeillion felly roedd rhaid prynu scooter glas, PUCH 125cc i fynd a dod o'r gwaith ac roeddwn yn meddwl fy mod yn un o'r 'mods' y chwedegau. Roeddwn yn gadael y ty tua 8 o'r gloch y bore, ac yn y gaeaf oer roeddwn yn gwisgo potel dwr poeth ar fy nghorff, ond yn yr haf spectol haul a 'hot pants' oedd amdanaf. Ond, un diwrnod wnes fynd yn rhy gyflym yn Gorrig a gorffen lan ar ben clawdd. Pwy oedd cyntaf yn cyrraedd ond fy nhadcu, Evan, a Dr Enoch yn ei ddilyn. Ni chefais niwed on druan ar scooter.

Ar ol hynny roedd hi'n amser i brynu car ond bryd hynny er fy mod yn gweithio mewn banc nid oedd hawl gan ferch sengl fenthyg arian felly brynes A35 du costiodd £20 a fues i'n rhedeg hwn am tua blwyddyn hyd nes cael stop gan yr heddlu gan fod sut gymaint o fwg yn dod allan o'r exhaust. Chi'n gweld, roedd problem gyda'r injan ac roeddwn yn ei redeg ar 'waste oil'!



Ar ol enedigaeth fy mab Timothy nid oedd yr hawl gennyf fynd nol i'm swydd yn y banc (daeth y ddeddf mamolaeth ddim mewn hyd 1975/76) felly pam gynnigodd fy mam edrych ar ei ol gwnes edrych am swydd yn lleol. Bues yn gweithio i J L Jones y Glo am chwech mlynedd a rhoddodd Wyn (bach) y cyfle i fi ddatblygu fy sgiliau rheoli sydd o ddefnydd i fi heddi ac mae llawer o ddiolch gyda fi iddo.

Yn 1980 roeddwn eisiau mynd nol i weithio ym maes cyllid a chefais swydd mewn Cymdeithas Adeiladu yn Aberteifi ac yn 1982 dyrchafiad i Rheolwr gan Gymdeithas arall yng Nghastell Newydd a nes ymlaen Llambled a fues i gyda nhw hyd 1988.

Dyma'r ddegawd ddechreuais wneud gwaith gwirfoddol ac yn 1982 gwnaeth y Cyng. D G E Davies (David Fet) ofyn i fi eistedd ar Fwrdd Antur Teifi Cyf. a cymryd rol Trysorydd. Roedd Antur Teifi ond wedi sefydlu rhyw ddwy flynedd cynt ac roedd y gyllideb yn dynn iawn. Roedd tipyn o waith gan y trysorydd bryd hynny gan nad oedd Swyddog Cyllid ar gael i wneud y gwaith dyddiol. Roeddwn yn gyfrifol am dalu biliau; paratoi cyflogau a paratoi'r cyfrifon misol a blynyddol (heb gyfrifiadur) i'r bwrdd ar Cyfrifydd, a hyn i gyd wrthgwrw heb dal. Rwy'n browd iawn heddi o gallu dweud fy mod wedi chwarae rhan bwysig yn nhyfiant Antur Teifi.

Tua diwedd y degawd gwnaeth y ffordd o weithio yng gymdeithasau adeiladu newid ac roeddwn ddim yn hapus gyda'r newidiadau hyn. Felly, beth oedd y stepen nesa yn fy ngyrfa?

Pan oeddwn yn yr ysgol nid oeddwn yn un o'r plant hyn oedd yn gwybod lle roeddent eisie bod pan yn 30ain. Nid oedd unrhyw gynllun gyda fi a phan on i'n 30eg nid oedd fwy o syniad da fi ble roeddwn eisie bod pan yn 50 oed. Yr unig beth roeddwn yn gwybod oedd yr amser i symud ymlaen yn y gweithle. Unwaith oedd y sialens wedi mynd ac roedd y gwaith yn mynd yn hwylus roeddwn yn barod i newid swydd. Roeddwn wastad yn gwybod fyddde rhyw hysbys yn y papur lleol yn tynnu fy sylw ac yna byddem yn mynd amdani. Roedd dim ots da fi newid cyfeiriad ond bob tro roeddwn yn chwilio am swydd oedd yn gwneud a chyllid, ac mae hyn yn fy synnu wrth edrych nol gan na chefais lefel 'O' yn mathamateg. Roeddwn yn anobeithiol yn algebra, byth yn deall sut oedd  $x$  a  $y$  yn gwneud  $z$ !

Yn 1988 gwnes ymuno a Chymdeithas Tai Dyffryn Teifi (gwnaeth newid i Cantref) fel Swyddog Datblygu, a nes ymlaen dyrchafiad i Gyfarwyddwr. Fy'n rol oedd chwilio a phrynu tai a thir i adeiladu arno. Roeddwn yn gweithio allan o Gastell Newydd ond yn prynu tir mor bell a Machynlleth a Abergwaun ac un flwyddyn roedd cynlluniau gennyf yn y ddwy dre ynghyd a Aberteifi a Llambled. Rwy'n ymfalchio fod yr eiddo newydd hynny dal yn cynnig cartrefu i llawer o bobl heddi ac am flynyddoedd i ddod.

Ar ol saith mlynedd yn y swydd ('run patrwn ar arfer) cefais chwant newid swydd eto ond y tro hwn daeth cyfle fynd yn hunan-gyflogedig. Yn 1995 agorais Pethau Del yng Nghastell Newydd Emlyn lle roeddwn yn gwerthu gemwaith, llestri ac anrhegion. Roedd hwn eto yn her gan nad oedd unrhyw brofiad da fi o weithio mewn siop ond fu'n llwyddiannus iawn gyda chymorth staff cefnogol. Roedd gweithio i'ch hun yn beth newydd iawn i fi ond cymerais yr un agwedd a phan yn gweithio i gwmnïau h.y. sicrhau eich bod yn ffocws ar beth ydych yn ei wneud yn dda a cymryd sylw barcod ar y llinell waelod (y 'bottom line') Rhaid mewn busnes eich hun cadw llygad ar y gyllideb a gwneud yn siwr eich bod yn gwneud elw- a dim tynnu gormod o arian allan hyd hynny!

I fynd nol i'm gwaith gwirfoddol, tua 1990 gorffennais a'r fwrdd Antur Teifi ac ar ol gadael Cymdeithas Tai Cantref gofynnodd y bwrdd i fi ymuno a nhw ac yn 2000 cefais y fraint o fod yn gadeirydd am ddwy flynedd. Y flwyddyn gynt gwnes gais i fod yn aelod annibynnol Awdurdod Heddlu Dyfed Powys ac ar ol cyfweiliad bues yn llwyddiannus. Roedd 19 ar yr Awdurdod yn cynnwys aelodau annibynol a chynghorwyr y bedair Sir. Roedd yn waith diddorol iawn ac yn 2005 cefais fy newis yn gadeirydd y pwyllgor cyllid ac adnoddau. Roedd hyn yn rhoi'r cyfle i fi weithio'n agos gyda'r Prif Swyddogion, eto i sicrhau fod y gyllideb oedd bron £100miliwn yn gywir. Cefais fy ethol yn 2009 fel Cadeirydd ac fe wnes arwain yr Awdurdod am dair blynedd cyn i Lywodraeth Prydain newid y system a gorffen a Awdurdodau a dod a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau i mewn.

Cefais amser brysur iawn gan roeddw'n hefyd wedi fy newis fel Cadeirydd Awdurdodau Heddlu Cymru ar y cyd. Roeddw'n yn trafaelu llawer dros ardal Dyfed Powys a De Cymru ac yn mynychu cyfarfodydd yn aml yn Llundain. Er hynny, gwnes fwynhau y profiadau yn fawr iawn a chwrdd a llawer o bobl gwahanol.

Ni feddyliais byth nol yn y chwedegau pan fethais ymuno ar Heddlu y byddem yn y dyfodol yn cael y fraint o drafod strategaeth a pholisiau'r heddlu gyda'r Prif Gwnstabl ar Ysgrifennydd Cartref. Efallai bod breuddwydion yn dod yn wir.

Rwyf nawr yn mwynhau fy ymddediad ond yn dal i gadw'r ymenydd i weithio drwy waith gwirfoddol. Rwyn drysorydd Ffrindiau Ysbyty Glangwili; yn gadeirydd Undeb Credyd Gorllewin Cymru ac yn cadeirio grwp sydd wedi ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru i helpu tyfiant busnesau ayyb yn Nyffryn Teifi. Fel ddywedais ar y cychwyn, merch y filltir sgwar wyf ac mae digon o gyfleuoedd yn y Dyffryn os ydych yn barod i newid eich cyfeiriad ac ymuno yn y gweithgaredd. Nid oes rhaid bob tro mynd bant i wellach hunan. Felly, beth nesa? Pwy a wyr!

*Delyth was born and bred in Maesymeillion. She attended Tregroes Primary School and Llandysul Grammar School. At the age of 15, in the 60s, she asked the question "What is my ambition?"*

*After her O levels she went to work, rather than continuing her academic studies, although her love for sports and athletics continued. She left school at 17 and went to work at Lloyds bank Newcastle Emlyn. Her career came to an end with the birth of her only son, Timothy; mothers at that time didn't work with young children. Delyth was lucky because her mother Olwen looked after Timothy and she was able to return to work in 1975 for J.L.Jones the coal merchant, where she worked for 6 years. Subsequently she worked for a Building Society based in different towns.*

*In 1988 she began working for Tai Dyffryn Teifi Housing Association Cantref and her ability led her to start her own business, Pethau Del, in Newcastle Emlyn. At the same time she did a lot of voluntary work, such as chairing various groups, one of which was the Dyfed Powys Police Authority. This led her to travel many miles all across Britain. After being turned down as a police officer in the 1960s she never imagined that she would be involved in discussing policing strategies with the chief constable!*

*Now retired, she does charitable work for the League of Friends at Glangwili Hospital and West Wales Credit Union. She continues to live a full and exciting life but she still asks "What's next? Who knows?"*

# What's On

## Llandysul and District SHOW SIOE Amaethyddol Llandysul a'r Cylch

Saturday, September 5th / Sadwrn, Medi 5ed, 2015

## SIOE Prengwyn SHOW Neuadd Pantydefaid Hall

Saturday, August 29th 2015 / Sadwrn, Awst 29ain, 2015

### Capel Dewi Events

**Community Market** meets on the 3rd Saturday of the month between 10--12 noon.

**Film Club** Meets monthly at Church Hall

Films in HIGH DEFINITION Blu-ray with 5 CHANNEL SOUND

Presentation on ELEVEN FT WIDE SCREEN,

COMING SHORTLY !

TUESDAY 15th September : THE SECOND BEST MARIGOLD HOTEL

TUESDAY 20th October : SHAUN THE SHEEP MOVIE

TUESDAY 17th November : THE RAILWAY MAN

TUESDAY 15th December : HOLIDAY INN

(May be subject to change according Release Dates)

Doors open 7.00 p.m. Show Starts at 7.15!

Suggested Donation towards Hall costs etc : Adults £3.50, Child Under 16 £1.50.

Free Tea or Coffee & Biscuits at interval. Shop open for Ices, Crisps, Fizzy Drinks etc. etc.

**Committees** meet regularly throughout the year for Dolen Dewi, Siop Dewi and the History Project.

### Walkers are Welcome Llandysul & Pont-Tyweli

Saturday 26 September, 11am Local History PUB walk, 11 am at car park, end Half Moon for food. Jane & Lesley

## Llandysul Aqua Centre

- Spaces in lessons are available.
- Spaces for private hire and school hire is available currently as well.
- Swimming club has now started on a Tuesday 4-5 and Thursday 7-8.
- Actives that are due to run through the summer holidays include crash courses of lessons, water polo, Kayaking, lifesaving, syncro, wakey races & aqua Aerobics.
- Early morning swim is coming soon.

Heol Llyn y Fran

Llandysul, Ceredigion, SA44 4HP

Info@aquacentrellandysul.co.uk

01559 362548

[www.aquacentrellandysul.co.uk](http://www.aquacentrellandysul.co.uk)

## Family Centre LLANDYSUL Canolfan Deuluol

**Tuesday** - 9.15am to 2.45pm

'Young Parents Group' 9.15am to 12.00pm

'Jumping Beans' Active Play Sessions 1pm to 2.45pm (Church Room, Council Building Llandysul)

**Wednesday** - 9.15 to 2.45pm

'Lunch Club' 10.30am to 12.30pm

'Out and About' 1.15pm to 2.45pm

**Thursday** - 9.15 to 2.45pm

'Messy Play' / Craft activities 10.00am to 1.30pm

Courses and other activities 1pm to 2.45pm

**Friday** - 9.15 to 12pm

'Bumps and Babies' 0 to 10 months 9.15am to 12pm

(For more info find us on Facebook or call Helen on 01559363841)

## CYD Llandysul

Dewch am sgwrs gyda'r dysgwyr a'r Cymry Cymraeg ar y 3ydd nos

Iau o'r mis. / Meet 3rd Thursday of the month at 7.45pm.

Please contact: Lesley Parker

The Solutions Factory Ltd

Cwmtwyll

Pont-Tyweli

Llandysul

SA44 4RS

Telephone: 01559 363979

Mobile: 07989 127396